**Teitl: Cymdeithas Aml-Gred (aml-ffydd) Cymru**

| **Teitlau** | **Yr Eglwys Uniongred Yng Ngogledd Cymru** | **Bywyd fel Mwslim yng Nghymru** | **Hindŵaeth yng Nghymru** |
|---|---|---|---|
| **Rhesymeg** | **YMWADIAD:** Mae'r Nodiadau i Athrawon wedi'u diweddaru er mwyn gallu defnyddio'r adnodd drwy Gwricwlwm i Gymru. Wedi dweud hynny, mae cynnwys yr erthyglau wedi'i archifo ac nid yw'r wybodaeth wedi'i diweddaru. Mae'r erthyglau yn cael eu cadw ar y wefan gan fod y cynnwys yn parhau i fod yn berthnasol i Gwricwlwm i Gymru: Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg.<br><br>**Pedwar diben 'Cwricwlwm i Gymru - Cwricwlwm am Oes'**<br>**Drwy ddysgu Gymdeithas Aml-Gred (aml-ffydd) Cymru yn eu gwersi addysg Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg, bydd cyfleoedd i ddysgwyr ddatblygu yn:**<br>• Ddysgwyr uchelgeisiol, galluog sy'n gallu egluro'r syniadau a'r cysyniadau maen nhw'n eu dysgu;<br>• Unigolion iach a hyderus sydd â gwerthoedd cadarn ac sy'n sefydlu eu credoau ysbrydol a moesol;<br>• Cyfranogwyr mentrus, creadigol sy'n rhoi o'u hegni a'u sgiliau er budd pobl eraill;<br>• Dinasyddion moesol, dysgedig a fydd yn ymgysylltu â materion cyfoes yn seiliedig ar eu gwybodaeth a'u gwerthoedd.<br><br>**Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg yn y Cwricwlwm i Gymru**<br>**Drwy ddarllen a defnyddio'r erthyglau yn eu gwersi Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg, caiff dysgwyr gyfleoedd i:**<br>• Ymgysylltu â chwestiynau athronyddol a thyngedfennol, a'u harchwilio<br>• Ymgymryd ag ymholiadau ac ymgysylltu â ffynonellau o ddoethineb ac athroniaethau<br>• Datblygu a mynegi eu safbwyntiau dysgedig eu hunain<br>• Defnyddio eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth am safbwyntiau byd-eang crefyddol a heb fod yn grefyddol i feddwl yn feirniadol am eu gwerthoedd eu hunain<br>• Archwilio'r ffyrdd mae argyhoeddiadau athronyddol crefyddol a heb fod yn grefyddol wedi dylanwadu ar brofiad dynol drwy gydol hanes<br>• Gwerthuso amrywiaeth o ffynonellau crefyddol a heb fod yn grefyddol a defnyddio tystiolaeth ohonynt i ymgysylltu â materion moesegol a moesol<br>• Archwilio credoau ac arferion pobl yn eu cymuned, yng Nghymru ac yn y byd ehangach ac ymateb yn sensitif iddynt<br>• Datblygu gwerthoedd cadarn a sefydlu eu credoau moesol a'u hysbrydolrwydd<br>• Trafod eu persbectifau eu hunain a phersbectifau eraill, a myfyrio arnynt.<br>• | | |

<table>
<tr><th>Teitlau</th><th>Yr Eglwys Uniongred Yng Ngogledd Cymru</th><th>Bywyd fel Mwslim yng Nghymru</th><th>Hindŵaeth yng Nghymru</th></tr>
<tr><td></td><td colspan="3">Y lens Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg<br>Drwy ddarllen a defnyddio'r erthyglau yn eu gwersi Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg, caiff dysgwyr gyfleoedd i archwilio amrywiaeth o gysyniadau yn ymwneud â Chrefydd, Gwerthoedd a Moeseg drwy'r is-lensys isod:<br>• Chwilio am ystyr a diben;<br>• Y byd naturiol a phethau byw;<br>• Hunaniaeth a pherthyn;<br>• Awdurdod a dylanwad;<br>• Perthnasoedd a chyfrifoldeb;<br>• Gwerthoedd a moeseg;<br>• Taith bywyd;<br><br>*Noder bod Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg yn cael eu pennu'n lleol drwy faes llafur cytunedig. Mae gan bob awdurdod lleol ei faes llafur cytunedig ei hun ar gyfer Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg y mae'n rhaid i ysgolion ei ystyried. Mae pob maes llafur sydd wedi'i gytuno wedi ystyried fframwaith y Cwricwlwm i Gymru a chanllawiau Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg y cyfeirir atynt uchod ac isod.<br><br>Dolenni Defnyddiol:<br>Canllawiau Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg - https://hwb.gov.wales/curriculum-for-wales/humanities/designing-your-curriculum/#religion,-values-and-ethics-guidance<br>Canllawiau Dyniaethau Hwb - https://hwb.gov.wales/curriculum-for-wales/humanities<br>Datganiadau o'r hyn sy'n bwysig - https://hwb.gov.wales/curriculum-for-wales/humanities/statements-of-what-matters/<br>Themâu Trawsgwricwlaidd - https://hwb.gov.wales/curriculum-for-wales/humanities/designing-your-curriculum/#cross-cutting-themes</td></tr>
<tr><td>Geirfa allweddol</td><td>LLAN - darn o dir, neu eglwys sy’n cael ei gysylltu gydag un o Gristnogion cynnar Cymru. Roedd y ‘saint’ hyn yn byw, yn gweithio, ac yn addoli ar y tir hwn, ac weithiau byddai wal yn amgylchynu’r darn tir.<br><br>SANT (SAINT/SEINTIAU) - yn y Testament</td><td>MOSG – adeilad Mwslimaidd ar gyfer gweddi ac addoliad.<br><br>CYMUNED – unrhyw grŵp o bobl sy’n rhannu pethau’n gyffredin.<br><br>HUNANIAETH – y ffordd mae person yn gweld ei hun o ran cefndir a pherthyn.</td><td>ERLEDIGAETH - Pobl yn cael eu trin yn annheg ac yn cael eu gyrru o’u cartrefi, eu swyddi a’u gwlad oherwydd eu bod yn perthyn i grŵp arbennig o ran crefydd neu hil.<br><br>CYFRIFIAD - Arolwg gan y llywodraeth o boblogaeth y wlad. Mae’n digwydd bob deg mlynedd.</td></tr>
</table>

| Teitlau | Yr Eglwys Uniongred Yng Ngogledd Cymru | Bywyd fel Mwslim yng Nghymru | Hindŵaeth yng Nghymru |
|---|---|---|---|
| | Newydd mae sant yn golygu person sydd wedi rhoi ei ffydd yn Iesu Grist.<br>Mae hefyd yn cael ei ddefnyddio heddiw am berson sy'n byw, neu wedi byw, bywyd da iawn.<br>Mae rhai Eglwysi Cristnogol yn canoneiddio pobl arbennig wedi iddynt farw, ac maen nhw'n cael eu hadnabod yn ffurfiol fel Sant e.e. Dewi Sant.<br><br>UNIONGRED - teulu o Eglwysi Cristionogol sydd mewn cymuned â Phatriarch Caergystennin. Hefyd yn golygu dilyn dysgeidiaeth sy'n gywir a gwir. *Orthodox.*<br><br>PABYDDOL - Yn perthyn i'r Eglwys Gatholig Rufeinig neu i'w dysgeidiaeth, ei chyfundrefn, ei harferion, ei defodau, a'i thraddodiadau, *Roman Catholic.*<br><br>TESTAMENT NEWYDD - Mae'r Beibl wedi ei rannu yn ddwy – Yr Hen Destament sy'n disgrifio hanes Duw a'i bobl cyn i Iesu Grist ddod i'r byd, a'r Testament Newydd sy'n dweud hanes geni, bywyd, marwolaeth ac atgyfodiad Iesu, a hanes dilynwyr Iesu yn rhannu neges yr Iesu gydag eraill.<br><br>LLYFR YR ACTAU - 5ed llyfr y Testament | EID - un o brif wyliau Islam i ddathlu cwblhau ympryd Ramadan.<br><br>IMAM – arweinydd cymuned Islam. | FFOADUR - un sy'n gorfod ffoi o'i wlad i chwilio am ddiogelwch. Diogelwch<br><br>DIARDDEL - anfon rhai o'u gwlad neu o'u swyddi<br><br>BEICHIOG - disgwyl plentyn<br><br>MANDIR - teml Hindŵaidd<br><br>DIWYLLIANT - ffordd o fyw<br><br>BHAJAN - yn llythrennol mae'n golygu 'rhannu' ac mae'n cyfeirio at unrhyw gân gyda thema grefyddol neu ysbrydol.<br><br>KIRTAN - adrodd stori yn aml i gyfeiliant cerddoriaeth.<br><br>ARATI - cynnig parch neu groeso i rywun arbennig. |

| Teitlau | Yr Eglwys Uniongred Yng Ngogledd Cymru | Bywyd fel Mwslim yng Nghymru | Hindŵaeth yng Nghymru |
|---|---|---|---|
| | Newydd sy'n dweud hanes dilynwyr cynnar Iesu Grist, a beth ddigwyddodd ar ôl i Iesu adael y byd hwn. *Book of Acts*<br><br>YR EGLWYS FORE - yr Eglwys Gristnogol yn nyddiau cynnar ei hanes. *Early Church*<br><br>APSTOL - Y disgyblion a ddanfonodd Iesu i bregethu'r Efengyl. Person sy'n cael ei anfon fel cennad, negesydd, cenhadwr. *Apostle*<br><br>DIFREINTIEDIG - dim yn mwynhau'r holl fanteision mae pobl eraill yn eu cael. U*nderprivilege.*<br><br>SEFYDLU - rhoi cychwyn i rywbeth; gosod rhywbeth i fyny.<br><br>DIWYGIAD PROTESTANNAIDD - Mudiad crefyddol yn yr 16ganrif a gychwynnwyd er mwyn diwygio (newid) athrawiaethau, trefn a defodau eglwys Rhufain, ond a arweiniodd at gychwyn Eglwys newydd. Nid yw Protestaniaid yn cydnabod y Pab. *Protestant Reformation*.<br><br>MYNACH - Aelod gwrywaidd o gymdeithas grefyddol sy'n ymneilltuo ac yn addunedu i beidio priodi, byw mewn tlodi ac ufudd-dod. | | |

| Teitlau | Yr Eglwys Uniongred Yng Ngogledd Cymru | Bywyd fel Mwslim yng Nghymru | Hindŵaeth yng Nghymru |
|---|---|---|---|
| | *Monk.*<br><br>ORDEINIO - Penodi, urddo (offeiriad, gweinidog). *To ordain*.<br><br>OFFEIRIAD - person sydd wedi ei benodi a'i ordeinio i weinyddu sacramentau, arwain addoliad cyhoeddus, pregethu. Priest.<br><br>GWEINYDDU - trefnu, gwneud gwaith papur angenrheidiol . *To administer.*<br><br>UGAIN - 20 *Twenty*<br><br>CAERGYSTENNIN - yr hen enw ar Istanbul, Twrci. Wedi 1054, pan rannodd yr Eglwys Gristnogol yn ddwy, daeth Caergystennin (Constantinople) yn ganolbwynt/ganolfan i'r Eglwys Uniongred.<br><br>CYFLOGAETH - gwaith sy'n talu cyflog. *Employment*<br><br>EICON - Delw neu ddarlun cysegredig o Iesu Grist, mam Iesu neu un o'r saint. Mae'r Eglwys Uniongred yn defnyddio eiconau fel cymorth i addoli a gweddïo. I*con*<br><br>SANT IOAN CHRYSOTOM. 347 OC - 407 O.C. - Archesgob Caergystennin . Mae'n cael ei | | |

| Teitlau | Yr Eglwys Uniongred Yng Ngogledd Cymru | Bywyd fel Mwslim yng Nghymru | Hindŵaeth yng Nghymru |
|---|---|---|---|
| | adnabod fel un o arweinwyr (Tadau) yr Eglwys Fore.<br><br>HYBU - Cryfhau, gwella, adfywio, rhoi hwb i. T*o promote.*<br><br>OFFEREN DDWYFOL (EWCHARIST): Sacrament Swper yr Arglwydd, gwasanaeth y Cymun. Gwasanaeth pan mae Cristnogion yn cofio aberth Iesu Grist ar y Groes ac yn bwyta bara ac yn yfed gwin.<br><br>ALLOR - lle/ bwrdd arbennig ble mae'r bara a'r gwin ar gyfer yr Ewcharist yn cael eu gosod, bwrdd y Cymun, *Altar.*<br><br>CYSEGR - man arbennig o'r eglwys sydd wedi ei neilltuo i weddi ac addoliad Duw. *Sanctuary.*<br><br>CENHEDLOEDD - pobl o wahanol wledydd. N*ations.*<br><br>YMYLOL- ar ymyl bywyd, dim yn bwysig. *Marginal*<br><br>HUNANIAETH - yr hyn sy'n gwneud ni'n wahanol fel cenedl i genhedloedd eraill. *Identity.* | | |

| Teitlau | Yr Eglwys Uniongred Yng Ngogledd Cymru | Bywyd fel Mwslim yng Nghymru | Hindŵaeth yng Nghymru |
|---|---|---|---|
| | CYMUNED - Cymdeithas, perthynas agos a chyfeillgar rhwng dau neu ragor o bersonau. *Communion.*<br><br>BEDYDDIO - sacrament yn yr Eglwys Gristnogol pan mae person yn cyflwyno ei hun (neu pan mae plentyn yn cael ei gyflwyno) i Iesu Grist ac yn addunedu ei ddilyn a'i wasanaethu. Mae pobl yn cael eu bedyddio gyda dŵr - naill ai ychydig o ddŵr ar eu talcen, neu maen nhw'n cael eu trochi mewn pwll o ddŵr. *To baptize.* | | |
| **Geiriau chwilio** | Y Tad Deiniol<br>Eglwys Uniongred<br>Diwygiad Protestannaidd<br>Caergystennin<br>Offeren Ddwyfol<br>Sant / Saint / Seintiau<br>Ewcharist<br>Sgrin<br>Eicon<br>Blaenau Ffestiniog<br>Eglwys Holl Saint Cymru | Allah<br>Muhammad<br>Mosg<br>Imam<br>Quran<br>Cymuned<br><br>Ramadan<br>Eid | Cymru<br>Cyfrifiad<br>Teml<br>Ffoadur<br>Uganda<br>Arlywydd<br>Caerdydd<br>Diwylliant<br>Gwirfoddolwyr |
| **Tasgau dosbarth** | Tasgau estynedig sy'n gofyn i'r disgyblion i ddefnyddio'r 3 erthygl, cyfeirio at gredoau/dysgeidiaethau ac arferion crefyddol wrth ymateb i gwestiynau sylfaenol/crefyddol. | | |

| Teitlau | Yr Eglwys Uniongred Yng Ngogledd Cymru | Bywyd fel Mwslim yng Nghymru | Hindŵaeth yng Nghymru |
|---|---|---|---|
| | | | |
| **Tasgau ymestynnol** | • Edrychwch ar fap a dod o hyd i unrhyw le o fewn cylch o ddeg milltir i'r ysgol sy'n dechrau gyda'r gair Llan. Gwnewch restr o'r enwau. Dewiswch un a gwnewch ymchwil i fywyd y sant sy'n cael ei enwi yn yr enw.<br><br>• Dynion yn unig sy'n cael gwasanaethu fel offeiriaid yn yr Eglwys Uniongred, ac mewn rhai Eglwysi eraill hefyd.<br>**Neu**<br>Mae gwisg arbennig gan Offeiriad yn yr Eglwys Uniongred, ac mewn eglwysi eraill (coler gron, gwisg laes etc.)<br><br>• Ydych chi'n meddwl fod hyn yn help neu'n rhwystr i waith yr Eglwys heddiw?<br><br>• Ceisiwch ddod o hyd i wybodaeth am Gaergystennin, ac ysgrifennu paragraff am ei hanes a'i phwysigrwydd o ran y ffydd Gristnogol. | • 'I'r sawl a fu yn yr Eisteddfod Genedlaethol yn y Bae yng Nghaerdydd mae'n ddiddorol nodi y bu cymuned o Fwslimiaid o Somalia ac Yemen yn ardal dociau Caerdydd ers dau gan mlynedd.' Ymchwiliwch i hanes y bobl yma a sut wnaeth eu cymuned ffurfio, datblygu a newid dros y blynyddoedd.<br><br>• Pa fosg sydd agosaf at eich cartref chi? Beth am gysylltu â holi am hanes y gymuned Fwslimaidd sy'n gysylltiedig â'r lleoliad?<br><br>• 'Rhaid sicrhau fod y syniad o aml-ddiwylliant yn gweithio yng Nghymru a gweddill gwledydd Prydain'<br>Dyma sylw sawl gwleidydd ac eraill ar hyd y blynyddoedd – ond beth yw ystyr hynny? Gyda phartner neu mewn grŵp lluniwch ddadl<br>**a)** dros gymathu (h.y. derbyn diwylliant a ffordd o fyw'r bobl o gwmpas);<br>**b)** cadw hunaniaeth (ffordd o fyw a | • Ymchwiliwch ymhellach i hanes yr Asiad yn cael eu diarddel o Uganda. Dychmygwch yr un peth yn digwydd i chi a lluniwch flog yn crynhoi eich teimladau.<br><br>• Pe baech yn gorfod gadael eich bro ar frys i fynd i wlad arall pa 10 peth fyddech yn mynd gyda chi a pham?<br><br>• Trafodwch y problemau y gall grŵp lleiafrifol ei wynebu wrth geisio sefydlu mewn gwlad arall sydd â diwylliant a chrefydd cwbl wahanol.<br><br>• Beth ellir ei wneud i leihau rhagfarn a chasineb ar sail hil neu grefydd? Ysgrifennwch erthygl yn cyflwyno eich syniadau.<br><br>• Gwahoddwch aelod o gymuned leiafrifol i'r ysgol i drafod eu gobeithion ar gyfer y dyfodol a rhai o'r anawsterau maent yn eu hwynebu. |

| Teitlau | Yr Eglwys Uniongred Yng Ngogledd Cymru | Bywyd fel Mwslim yng Nghymru | Hindŵaeth yng Nghymru |
|---|---|---|---|
| | • Ceisiwch ddylunio eicon fyddai'n help i chi i feddwl am Dduw neu i weddïo. | diwylliant a all fod yn wahanol iawn). Mae'n bosib bod ffordd ganol wrth gwrs!<br><br>• Ewch ati i astudio un mosg arbennig. Gall hwn fod yn adeilad yng Nghymru neu du hwnt. Gellir llunio cynllun ohono a'i labelu, esbonio'r prif nodweddion, rhoi gwybodaeth am gefndir y lle a'r defnydd a wneir ohono heddiw.<br><br>• 'Rwyf yn caru'r lle yma. Os ydych yn chwilio am le i weddïo, dyma fo. Mae'n le da i ymlacio a byddwn yn ei argymell i unrhyw un'.<br>Dyma sylw un person am y mosg ym Mangor. Holwch bobl o'ch cwmpas yn cynnwys aelodau o'r teulu er mwyn casglu eu sylwadau am eu lle hwy o addoliad.<br><br>• Lluniwch dudalen Facebook ar gyfer lle o addoliad. Rhaid ei wneud yn ddeniadol a diddorol er mwyn denu pobl y gymuned yno.<br><br>• Edrychwch ar y darn byr yma ar Youtube. Mae'n sôn am Fwslimiaid Bangor yn helpu'r tlawd a'r digartref. | |

| Teitlau | Yr Eglwys Uniongred Yng Ngogledd Cymru | Bywyd fel Mwslim yng Nghymru | Hindŵaeth yng Nghymru |
|---|---|---|---|
| | | Chwiliwch am enghreifftiau pellach o waith elusennol a wneir gan Fwslimiaid; e.e. trwy Islamic Relief/Cymorth Islamaidd.<br><br>https://www.youtube.com/watch?v=wm5R4rZWSw4 | |
| **Adnoddau pellach** | | | |